Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Llawlyfr Myfyrwyr
# Ymchwil
# Ôl-raddedig
# Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
# 2021/2022



# LLAWLYFR YMCHWIL ÔL-RADDEDIG Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL

**Cyflwyniad**……………………………………………………………………………………2

**Canfod Gwybodaeth**..........................................................................................................2

**Mynd o fan i fan**................................................................................................................ 2

**Croeso** .......................................................................... Error! Bookmark not defined.**-5**

**Yn Gryno**........................................................................................................................6-7

**Cofrestru**............................................................................................................................ 7

**Digwyddiadau Sefydlu**........................................................................................................ 7

**Dyddiadau Tymhorau a Semestrau** ...................................................................................... 8

**Eich Cyfadran**...................................................................................................................9-11

**Cymorth a Goruchwylwyr y Gyfadran** ..............................................................................12-13

**Graddau Ôl-raddedig** ......................................................................................................... 184

**Dilyniant a Chwblhau Graddau** ......................................................................................... 195

**Cam Dilyniant**..................................................................................................................16-17

**Cam Cwblhau** ...................................................................................................................... 18

**Datblygu Sgiliau**.................................................................................................................. 19

**Lwfans Ymchwil**...............................................................................................................19-20

**Diogelu Data**.........................................................................................................................21

**Cysylltiadau Cymorth Myfyrwyr**.......................................................................................22-23

**Gwefannau Defnyddiol**.....................................................................................................24-25

**Ymwadiad** ............................................................................................................................ 25

**Cyflwyniad**

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i Ymchwil Ôl-raddedig yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Mae peth o'r wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn gysylltiedig â Rheoliadau Academaidd y Brifysgol, sy'n cynnwys rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau pwysig sy'n ymwneud â'ch astudiaethau. Yn ogystal dylech gyfeirio at Lawlyfr Academaidd y Brifysgol – Ymchwil Ôl-raddedig sy'n cyfeirio at Reoliadau Academaidd, Polisïau a Gweithdrefnau. **Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, eich cyfrifoldeb chi yw ymgyfarwyddo â'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn Llawlyfrau'r Gyfadran a'r Brifysgol.**

Os oes gennych gwestiynau am eich astudiaethau ac ni allwch ddod o hyd i'r hyn y sydd ei angen arnoch yn y Llawlyfrau, cysylltwch â'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig neu MyUniHub.

## Canfod gwybodaeth

**Hyperddolenni**

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys hyperddolenni i'ch galluogi i neidio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Mae geiriau sy'n cynnwys hyperddolen wedi'u tanlinellu.


**Chwilio ar sail geiriau allweddol**

I'ch helpu i ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano, gellir chwilio yn y ddogfen hon.
Defnyddwyr Microsoft: Gwasgwch y bysellau "Ctrl" ac "F" i agor y bar chwilio.
Defnyddwyr Apple Mac: Gwasgwch y bysellau "Command" ac "F" i agor y bar chwilio.
Gallwch chwilio hefyd drwy deipio gair allweddol

**Mynd o fan i fan**

Bydd mapiau o gampysau Singleton a'r Bae yn eich helpu i ganfod eich ffordd yn eich amgylchedd ymchwil a dod o hyd i wasanaethau cymdeithasol neu gymorth y gallai fod eu hangen arnoch.

# Croeso i Brifysgol Abertawe




Mae’n bleser mawr gennyf eich croesawu (yn ôl) i Brifysgol Abertawe, yn aelod o’r gymuned Ymchwil Ôl-raddedig.

Os ydych yn fyfyriwr newydd neu’n dychwelyd i’r Brifysgol, gobeithio y bydd eich taith yn un wobrwyol a phleserus. Mae ymgymryd ag ymchwil ôl-raddedig yn golygu gofyn cwestiynau anodd a cheisio eu hateb. Ar y lefel israddedig, rydym yn gwybod yr atebion (awgrym: maen nhw yn nrôr desg yr athro), ond dylai hyn fod yn hollol wahanol nawr. Ar y cyd â’ch goruchwyliwr(wyr) a chydweithwyr eraill yn eich Adran a/neu eich Ysgol, byddwch yn cyfrannu at ddatblygiad maes pwnc eich ymchwil. Mae’r ymdeimlad o gyflawni pan gaiff eich papur cyntaf ei dderbyn yn wych, a gallaf ddweud hynny o brofiad. Yn ogystal, bydd digon o gyfleoedd i wella eich sgiliau, yn eich pwnc ac yn gyffredinol hefyd. Mae eich Cyfadran a’r Brifysgol yn cynnig llawer o gyrsiau hyfforddi y mae rhai ohonynt yn orfodol, ac rwyf yn eich annog i ddefnyddio’r rhain er eich mantais, er mwyn gwella eich profiad a pharatoi ar gyfer bywyd ar ôl graddio.

Yn y sefyllfa bresennol o ran COVID, mae angen i ni addasu ac arloesi i barhau i fod yn gefnogol ac yn llwyddiannus. Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein myfyrwyr yn ymwybodol o’r hyn mae angen ei wneud i wynebu’r heriau o’n blaenau a’u bod yn gallu cyfrannu’n llawn at y gwaith hwn.

Mae gweithio mewn partneriaeth â’n myfyrwyr yn bwysig i ni. Rydym yn gweithio’n galed i ddileu rhwystrau ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb. Ein nod yw cymuned y mae pawb yn teimlo’n rhan ohoni, a lle caiff cyfraniadau pawb eu gwerthfawrogi. Dylech deimlo’n rhydd bob amser i siarad â’r staff academaidd, y gweinyddwyr a’ch cyd-fyfyrwyr – rwy’n siŵr y byddant yn gyfeillgar ac yn barod i’ch helpu.

Dymunaf flwyddyn academaidd lewyrchus i chi.

Gert

**Yr Athro Gert Aarts FLSW**
**Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil Ôl-raddedig**
**Prifysgol Abertawe**

## Croeso i Gyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol



Fel Pennaeth yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu, mae'n bleser mawr gennyf eich croesawu i'ch astudiaethau yma ym Mhrifysgol Abertawe. Mae ein hymchwil i natur, pwrpas ac effaith y celfyddydau a'r dyniaethau yn ein cymdeithas a'r byd yn hollbwysig a byddwch chi'n chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu syniadau, cysyniadau a heriau newydd ar gyfer y dyfodol. Gobeithio y byddwch yn mwynhau bod yn rhan o'n hamgylchedd ymchwil ffyniannus ac y byddwch yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyfforddi a chyfranogi.  Pob lwc gyda'ch astudiaethau.

**Dr Siân Rees, Athro Cysylltiol**
**Pennaeth yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu**
**Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

## Datganiad Cenhadaeth Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Mae Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn ymrwymedig i sicrhau rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil. Bydd y Gyfadran yn rheoli ei hadnoddau dynol, diriaethol ac ariannol i ddarparu amgylchedd academaidd cefnogol i fyfyrwyr ac ymchwilwyr a fydd yn codi uchelgeisiau ac yn ysgogi egni. Bydd yn cynnig profiad rhagorol i fyfyrwyr, gan gynnwys dysgu ac addysgu sy'n seiliedig ar ein hymchwil ac ar anghenion ein myfyrwyr a'n cymdeithas. Bydd staff academaidd y Gyfadran a'i myfyrwyr ymchwil i gyd yn ymgymryd ag ymchwil uwch. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn hyrwyddo ymchwil drawsddisgyblaethol ym mywyd cymunedol a diwylliannol Cymru, ac ar draws y gymuned ryngwladol.

**Nodau ac Amcanion Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

1. Darparu cymuned o ysgolheictod ymhlith myfyrwyr ac academyddion.
2. Meithrin gwerthoedd cyd-oddefgarwch a chyd-barch ochr yn ochr â rhyddid dadlau academaidd.
3. Hyrwyddo delfrydau addysg ryddfrydol; y sgiliau a'r uchelgais sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn llawn yn yr addysg honno; a pherthnasedd yr addysg honno i anghenion ein cymdeithas.
4. Cynnig rhaglenni gradd sy'n datblygu arbenigedd myfyrwyr yn eu pynciau dethol, hyfedredd wrth wneud ymchwil ac ysgrifennu, a'r wybodaeth a'r sgiliau eraill sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth, astudio pellach, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth fyd-eang.
5. Ehangu mynediad at ein haddysg ac adnoddau eraill.
6. Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth, sgiliau, egni a phrofiad pob aelod o'r Gyfadran.
7. Ymateb yn hyblyg ac yn effeithiol i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newidiol.
8. Ymgymryd ag ymchwil sydd o ansawdd rhyngwladol ac sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang.
9. Uchafu effaith ein hymchwil ar ymchwilwyr eraill, y gymuned academaidd ehangach a'r gymuned leol a chenedlaethol.
10. Hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant i bawb, gan feithrin partneriaethau a churadu gweithgareddau o allbynnau diwylliannol, celfyddydol ac ymchwil staff a myfyrwyr.

# YN GRYNO

***Arweiniad i fyfyrwyr i'r wybodaeth bwysicaf yn y llawlyfr hwn:***

- ✓ *Gwiriwch wybodaeth am gofrestru. Defnyddiwch y ddolen hon am wybodaeth am sut i gofrestru yn y Brifysgol: www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/cofrestru*
- ✓ *Pan fyddwch wedi cofrestru, digwyddiad pwysig i'w nodi yn eich dyddiadur yw **digwyddiad sefydlu** ar gyfer myfyrwyr ymchwil newydd Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a gynhelir **nos Fercher 29 Medi 2021, 17.00 - 18.30** drwy Zoom (anfonir gwahoddiad a dolen i fyfyrwyr newydd). Byddwn yn darparu dyddiadau digwyddiadau sefydlu eraill i chi ar adeg derbyn mwy o fyfyrwyr, e.e. Ionawr, Ebrill a Gorffennaf.*
- ✓ *Siaradwch â'ch **Goruchwylwyr** – maent yno i'ch helpu.*
- ✓ *Rhaid i chi ddarllen e-byst eich cyfrif yn y brifysgol bob dydd*.
- ✓ *E-bostiwch **PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk** neu ewch i weld Cydlynydd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau os oes genych ymholiadau – rydym ni yma i'ch helpu.*
- ✓ *Sicrhewch eich bod yn ymgyfarwyddo â'r wybodaeth yn y Llawlyfr Ymchwil Ôl-raddedig a'r Canllaw Academaidd am oruchwyliaeth a monitro cynnydd*. *Mae'n bwysig bod pob myfyriwr yn defnyddio'r System Rheoli Ymchwil (RMS).*
- ✓ *Manteisiwch ar gyfleoedd hyfforddiant sgiliau sy'n cael eu cynnig ar lefel y Brifysgol ac ar lefel y Gyfadran/Ysgol*
- ✓ *Defnyddiwch eich **Cynrychiolydd Myfyrwyr** i godi materion academaidd ar eich rhan.*
- ✓ *Os ydych chi am ragor o gyfleoedd i gymdeithasu â myfyrwyr ymchwil eraill, ystyriwch ymaelodi â Chymdeithas Ymchwil Ôl-raddedig Undeb y Myfyrwyr; edrychwch ar eu tudalen we. Yn ogystal, mae grŵp caeëdig ar Facebook sy'n cael ei reoli gan fyfyrwyr, o'r enw 'Arts and Humanities Postgraduates' y gall myfyrwyr wneud cais i ymuno ag ef a chyfrif Twitter, @COAHPGR.*
- ✓ *Manteisiwch ar y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol, gan gynnwys cymorth ariannol, iechyd a lles.*

- ✓ *Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r wybodaeth allweddol a amlinellir yng Nghanllaw Academaidd y Brifysgol a Llawlyfr Ymchwil Ôl-raddedig y Gyfadran*.

- ✓ *Sylwch y bydd angen i chi gyflwyno Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno o leiaf 3 mis cyn cyflwyno eich traethawd ymchwil.*

- ✓ *Ar ôl cyflwyno, cewch eich asesu drwy arholiad llafar (viva voce) – mae'n rhaid i chi fod ar gael am hwn.*

- ✓ *Mewn argyfwng, **ffoniwch 333** o unrhyw ffôn yn y Brifysgol.*

**Cofrestru a'ch Cyfarfod Goruchwyliaeth cyntaf**

Defnyddiwch y ddolen hon i gael gwybodaeth am y Brifysgol:
www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/cofrestru

Mae'r ddolen yn cynnwys gwybodaeth am sut i gasglu'ch cerdyn adnabod, y gallwch ei ddefnyddio i fenthyca llyfrau o Lyfrgell y Brifysgol ac i gael mynediad i gyfleusterau astudio'r Orendy..

Pan fyddwch wedi cofrestru, **dylech gysylltu â'ch goruchwylwyr** er mwyn trefnu cyfarfod cychwynnol, os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny.

**Digwyddiad Sefydlu Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol - Medi 2021**

Pan fyddwch wedi cofrestru, digwyddiad pwysig i'w nodi yn eich dyddiadur yw digwyddiad sefydlu i fyfyrwyr ymchwil newydd y Gyfadran, a gynhelir **nos Fercher 29 Medi o 17.00 i 18.00** drwy Zoom (bydd dolen i wahoddiad yn dilyn ar gyfer myfyrwyr newydd).

Yn y digwyddiad sefydlu, sy'n **orfodol** ar gyfer pob myfyriwr newydd, byddwch yn derbyn gwybodaeth ynghylch eich ymgeisyddiaeth (gan gynnwys monitro cynnydd), cyfleoedd hyfforddi academaidd a phroffesiynol ar gyfer myfyrwyr ymchwil a meysydd cymorth eraill. Byddwn yn darparu dyddiadau digwyddiadau sefydlu eraill i chi adeg derbyn mwy o fyfyrwyr, e.e. Ionawr, Ebrill a Gorffennaf.

# Dyddiadau Tymhorau a Semestrau

**Bydd blwyddyn academaidd 2021/2022 yn dechrau ar 20 Medi 2021.**

Gweler Dyddiadau Tymhorau a Semestrau 2021/2022 y Brifysgol.
Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â strwythur y flwyddyn academaidd ar gyfer pob lefel astudio. **Fel myfyriwr ymchwil ôl-raddedig, bydd eich gwaith yn parhau y tu allan i'r dyddiadau hyn.** Sylwer ar y dyddiadau allweddol ychwanegol canlynol:

**Dydd Iau 16 a dydd Gwener 17 Medi 2021** (dau ddiwrnod), 9am - 5:30pm: Cynhadledd Ymchwil Ôl-raddedig Flynyddol y Celfyddydau a'r Dyniaethau. I gael rhagor o fanylion, e-bostiwch: coahpgr@abertawe.ac.uk.

**Nos Fercher 29 Medi 2021, 5pm – 6pm (amser y DU) Digwyddiad Sefydlu Ymchwil Ôl-raddedig**: Digwyddiad sefydlu drwy Zoom ar gyfer pob myfyriwr ymchwil sydd newydd gofrestru (gwahoddiad a dolen i ddilyn ar gyfer myfyrwyr newydd).

| Semester 1 | Semester 2 |
|---|---|
| 20 Medi 2021 – 21 Ionawr 2022 | 24 Ionawr 2022 – 1 Mehefin 2022 |

| Dyddiadau Graddio |
|---|
| Mae'r Seremonïau Graddio wedi'u gohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid-19.<br>Seremonïau Graddio'r Gaeaf – i'w cadarnhau |
| Seremonïau Graddio'r Haf – i'w cadarnhau |

# CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL

**Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau**
**PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk**

[Sylwer: mae'r staff gweinyddol yn gweithio o bell o hyd, felly defnyddiwch yr e-bost hwn i gysylltu â ni; byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddant yn gweithio ar y campws eto yn Ystafell 142 Adeilad Keir Hardie; Oriau Agor: dydd Llun i ddydd Gwener 9am-5pm. Ffôn: 01792 295926].

Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig: Dr Kathryn Jones k.n.jones@abertawe.ac.uk

Arweinydd Cymorth Ymchwil Ôl-raddedig: Kim Absalom: k.s.absalom@abertawe.ac.uk

Cydlynydd Cymorth Ymchwil Ôl-raddedig: Liz Whitwell: l.whitwell@abertawe.ac.uk

Cynorthwy-ydd Clercol Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau: Rachel Abraham, r.d.abraham@abertawe.ac.jk

Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau Gwefan y Ganolfan Ymchwil Ôl-raddedig

Cyfrif Twitter Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau: @COAHPGR

**Cyfleusterau Astudio Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau**

Mae ardal astudio benodol wedi'i neilltuo i fyfyrwyr ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, lle ceir tua 40 o weithfannau (pan fydd y lle'n llawn) â chyfrifiadur a chyfleusterau cegin. Fe'i lleolir yn yr Orendy ar lawr gwaelod Adeilad yr Abaty, Campws Singleton. Darperir cyngor ar sut i gael mynediad i'r lleoedd astudio ynghyd â chanllawiau/cyfyngiadau iechyd a diogelwch oherwydd pandemig Covid-19

**Cynrychiolwyr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig 2021/2022**

Sarah Williams 927382@abertawe.ac.uk
John Rogers 825841@abertawe.ac.uk
Evelyn Song 889576@abertawe.ac.uk

**Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-raddedig Adrannau**
***Yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu***
Hanes yr Henfyd, y Clasuron ac Eifftoleg: Dr Fritz-Gregor Herrmann f.g.herrmann@abertawe.ac.uk
Hanes: Dr Fritz-Gregor Herrmann f.g.herrmann@abertawe.ac.uk
Ieithyddiaeth Gymhwysol/Iaith Saesneg: Yr Athro Tess Fitzpatrick t.fitzpatrick@abertawe.ac.uk
Llenyddiaeth Saesneg: Dr Rachel Farebrother r.l.farebrother@abertawe.ac.uk

Ysgrifennu Creadigol: Dr Alan Bilton a.j.bilton@abertawe.ac.uk
Y Cyfryngau a Chyfathrebu: Dr Joanna Rydzewska j.rydzewska@abertawe.ac.uk
Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd: Dr Federico Lopez-Terra: federico.lopez-terra@abertawe.ac.uk
Rhyfel a Chymdeithas: Dr Fritz-Gregor Herrmann f.g.herrmann@abertawe.ac.uk
Astudiaethau Americanaidd:
Dr Fritz-Gregor Herrmann f.g.herrmann@abertawe.ac.uk
Y Gymraeg: Yr Athro Gwynedd Parry r.g.parry@abertawe.ac.uk

***Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:***
Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol: Dr Gideon Calder g.j.calder@abertawe.ac.uk
Addysg: Dr Janet Goodall j.s.goodall@abertawe.ac.uk
Cysylltiadau Rhyngwladol: Dr Gideon Calder g.j.calder@abertawe.ac.uk
Astudiaethau Datblygu: Dr Gideon Calder g.j.calder@abertawe.ac.uk

**Swyddogion y Gyfadran**
Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig ar gyfer y Celfyddydau a’r Dyniaethau: Dr Kathryn Jones (k.n.jones@abertawe.ac.uk)
Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil y Gyfadran: Yr Athro Jonathan Bradbury (j.p.bradbury@abertawe.ac.uk)
Gweinyddwr Academaidd y Gyfadran: Helen Baldwin (h.baldwin@abertawe.ac.uk)
Swyddog yr Iaith Gymraeg: Eleanor Parker (e.s.parker@abertawe.ac.uk)
Swyddog Cyswllt Anabledd: Helen Baldwin (h.baldwin@abertawe.ac.uk)
Swyddog Cyflogadwyedd: Debbie Marshall (d.marshall@abertawe.ac.uk)
Llyfrgellydd Cyswllt y Celfyddydau a'r Dyniaethau: Sean Barr (s.p.barr@abertawe.ac.uk)
Pennaeth Ymgysylltu a Datblygu Diwylliannol: Dr Elaine Canning (e.canning@abertawe.ac.uk)
Rheolwr yr Hyb Ymchwil: Mark Penny (m.w.penny@abertawe.ac.uk)
Swyddog Marchnata: Adrian Rees (adrian.rees@abertawe.ac.uk)

**Diddordebau ymchwil staff.** Defnyddiwch y dolenni canlynol i weld enwau a diddordebau ymchwil Staff Academaidd y Gyfadran.

**Cyfeirnodi**
Fel arfer, mae myfyrwyr y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn defnyddio un o ddwy arddull gyfeirnodi:
**APA (Havard).** Am ragor o wybodaeth, ewch i: http://www.apastyle.org/
**MHRA**. Am ragor o wybodaeth, ewch i: http://www.mhra.org.uk/style
Dylech ofyn i'ch goruchwyliwr pa system gyfeirnodi sy'n briodol i'ch disgyblaeth ymchwil.

**Moeseg Ymchwil**
Yn ystod misoedd cynnar eu hymgeisyddiaeth, dylai myfyrwyr ymchwil archwilio a oes goblygiadau moesegol gan unrhyw agwedd ar eu hymchwil arfaethedig (gan

gynnwys gwaith maes). Enghraifft nodweddiadol fyddai ymchwil sy'n cynnwys testunau neu setiau data dynol. Mewn achos o'r fath, dylai myfyrwyr gwblhau a chyflwyno ffurflen adolygiad moesegol llai beichus i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Gyfadran. Mae'n bosib y bydd angen cyflwyno ffurflen adolygiad moesegol llawn i'r Pwyllgor ei chymeradwyo hefyd cyn y caniateir iddynt ddechrau unrhyw un o'r gweithgareddau ymchwil dan sylw. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar https://www.swansea.ac.uk/arts-and-humanities/arts-and-humanities-research/research-ethics/

**Mae hyfforddiant moeseg ymchwil yn orfodol** i fyfyrwyr ymchwil. Gellir cyrchu hwn drwy raglen hyfforddi'r Brifysgol i fyfyrwyr ymchwil (cwrs Uniondeb a Moeseg Ymchwil ar-lein Epigeum).

**Ymchwil yng Nghyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau**

Anogir myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil sy'n cael eu cynnal yn y Gyfadran a'r tu allan iddi. Mae'r Gyfadran yn cynnal rhaglen o seminarau ymchwil a darlithoedd cyhoeddus rheolaidd.

Caiff y rhain eu trefnu gan adrannau academaidd, grwpiau a chanolfannau ymchwil a'r Sefydliad Diwylliannol:

Mae'r Gyfadran yn gartref i'r canolfannau a'r grwpiau ymchwil canlynol:

Y Ganolfan ar gyfer Diwylliant Almaeneg Cyfoes (CCGC)
Y Ganolfan ar gyfer Astudiaeth Gymharol o Bortiwgal, Sbaen a Chyfandiroedd America (CEPSAM)
Grŵp Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Abertawe (STING)
Canolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol ym Mhrifysgol Abertawe (CODAH)
Y Grŵp Gwrthdaro, Ailadeiladu a Chofio (CRAM)
Y Ganolfan Ymchwil i Lenyddiaeth ac Iaith Saesneg Cymru (CREW)
Y Grŵp Ymchwil i Wleidyddiaeth Ddigidol (DPRG)
Y Ganolfan Ymchwil i Rywedd mewn Diwylliant a Chymdeithas (GENCAS)
Ymagweddau at y Gorffennol sy'n seiliedig ar Wrthrychau a Thirwedd (OLCAP)
Y Grŵp Astudiaethau Rhyngwladol, Gwrthdaro a Diogelwch (ISCAS)
Canolfan Abertawe a Llanbedr Pont Steffan ar gyfer Ymchwil i Lenyddiaethau Naratif yr Henfyd (KYKNOS)
Y Ganolfan Ymchwil Iaith (LRC)
Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Ganoloesol a'r Cyfnod Modern Cynnar (MEMO)
Y Grŵp Dadansoddi Gwleidyddol ac Ymchwil i Lywodraethu (PAG)
Canolfan Richard Burton ar gyfer Astudio Cymru (RBC)
Grŵp Ymchwil dros y Dyniaethau Meddygol a Chanolfan Ymchwil (MHRC)

Cliciwch ar y ddolen hon am ragor o wybodaeth: https://www.swansea.ac.uk/arts-and-humanities/arts-and-humanities-research/arts-and-humanities-research-centres-and-groups/

**Digwyddiadau Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig**

Mae'r Gyfadran hefyd yn cynnal cynhadledd ôl-raddedig flynyddol lle gall myfyrwyr ledled y Gyfadran gyflwyno eu hymchwil sydd ar y gweill mewn amgylchedd cyfeillgar a chydweithredol. Cynhaliwyd y Gynhadledd Flynyddol eleni ar 16/17 Medi 2021.

Anogir myfyrwyr hefyd i gyflwyno eu hymchwil mewn seminarau adrannol ac mewn cynulliadau a drefnir o fewn adrannau yn y Gyfadran neu rhwng adrannau.

Mae croeso i fyfyrwyr ofyn am gyngor gan y Sefydliad Diwylliannol os ydynt yn dymuno trefnu gweithdai ymchwil neu gynadleddau bach ar thema benodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Elaine Canning, Pennaeth Ymgysylltu a Datblygiad Diwylliannol: e.canning@abertawe.ac.uk.

Anogir myfyrwyr hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau ymchwil ar draws y Brifysgol, gan gynnwys cystadlaethau poster ymchwil a'r gystadleuaeth thesis tair munud.

# CYMORTH A GORUCHWYLWYR Y GYFADRAN

Mae Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol a chadarn ar waith o ran darparu'r canlynol:

- Arweiniad academaidd
- Datblygiad personol myfyrwyr
- Gofal bugeiliol

## Tîm Goruchwylio

Dynodir tîm goruchwylio i chi i ddarparu cyngor ac arweiniad rheolaidd yn i chi ystod eich cyfnod fel myfyriwr ymchwil cofrestredig. Dynodir o leiaf ddau oruchwyliwr i chi. Fel arfer, eich goruchwyliwr cyntaf fydd eich prif gyswllt trwy gydol eich cyfnod fel myfyriwr ymchwil, a'r unigolyn hwn fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am eich goruchwyliaeth academaidd. Gall eich ail oruchwyliwr chwarae rôl allweddol yn y broses oruchwylio hefyd oherwydd ei arbenigedd. Rôl eich ail oruchwyliwr yw bod ar gael i chi yn absenoldeb eich goruchwyliwr cyntaf, neu os oes anghytundeb rhyngoch chi a'ch goruchwyliwr cyntaf. Ar ddechrau eich ymgeisyddiaeth, dylech drafod rôl yr ail oruchwyliwr yn y broses oruchwylio, gan gynnwys a fydd yn well cynnal cyfarfodydd goruchwylio ar y cyd neu ar wahân.

Bydd un o'ch goruchwylwyr, fel arfer eich goruchwyliwr cyntaf, yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Astudio, â'r cyfrifoldeb pennaf am ddarparu cymorth bugeiliol a goruchwyliaeth weinyddol yn ystod eich ymgeisyddiaeth.

## Cofnodi goruchwyliaeth a chynnydd – Y System Rheoli Ymchwil (RMS)

Caiff eich cyswllt â'r tîm goruchwylio a'ch cynnydd eu cofnodi'n rheolaidd ar **system monitro cynnydd ar-lein.** Bydd gennych chi a chan eich goruchwylwyr fynediad at y system, lle disgwylir i chi nodi data neu ateb cwestiynau ynghylch y broses oruchwylio; er enghraifft, bydd eich goruchwylwyr yn cofnodi trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfodydd a chewch chi gyfle i nodi eich ymatebion i'w sylwadau. Yn ogystal, bydd angen i chi a'ch goruchwylwyr ddefnyddio'r system ar-lein i Gadarnhau Ymgeisyddiaeth, a'r gweithdrefnau dilyniant bob chwe mis (gweler 'Dilyniant a Chwblhau'ch Gradd' ar dudalen 15). Byddwch yn derbyn e-byst i'ch atgoffa i gofnodi data ar y system ar adegau priodol yn ystod eich ymgeisyddiaeth. Darperir hyfforddiant i fyfyrwyr ar ddefnyddio'r system monitro cynnydd ar-lein. Darllenwch eich e-byst yn rheolaidd am ddyddiadau'r hyfforddiant.

Cwrdd â'ch goruchwylwyr

Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhan-amser ac amser llawn fynd i o leiaf bedwar cyfarfod wyneb yn wyneb (gan gynnwys drwy Zoom, os oes angen) gyda'u goruchwyliwr neu eu goruchwylwyr bob blwyddyn. Dylai’r drafodaeth a’r camau gweithredu sy'n codi gael eu crynhoi mewn cofnod ysgrifenedig ffurfiol a gaiff ei lanlwytho i'r system monitro cynnydd ar-lein. Anogir goruchwylwyr a'u myfyrwyr i drefnu mwy na lleiafswm y cyfarfodydd goruchwylio. Yn ogystal â hyn, disgwylir i chi gysylltu â'ch goruchwylwyr (boed wyneb yn wyneb, drwy Zoom, e-bost neu ffôn) unwaith y mis er mwyn cadarnhau eich bod yn ymgymryd â'ch ymchwil. Caiff hyn ei gofnodi hefyd ar y system cofnodi cynnydd ar-lein.

Darllenwch y Canllaw i Oruchwylio Ymchwil am ragor o wybodaeth.

# GRADDAU YMCHWIL ÔL-RADDEDIG


Mae Gradd Ymchwil Ôl-raddedig yn cynnig cyfle gwobrwyol i chi ddefnyddio'r sgiliau rydych wedi'u meithrin hyd yn hyn yn eich addysg i ymgymryd ag ymchwil helaeth mewn maes sydd o ddiddordeb i chi, a gwneud cyfraniad gwreiddiol at fyd ymchwil.

Mae'n bwysig eich bod yn ymgyfarwyddo â'r math o Radd Ymchwil rydych wedi'ch cofrestru arni. Mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i bob Gradd Ymchwil ar gael yn y Rheoliadau Graddau Ymchwil. **Caiff eich cynnydd ei fonitro'n fisol gan ddefnyddio System Rheoli Ymchwil electronig y Brifysgol. (RMS).** Bydd yn rhaid i chi a'ch goruchwyliwr fewnbynnu gwybodaeth am eich cynnydd yn rheolaidd ac felly mae'n bwysig eich bod yn ymgyfarwyddo â'r RMS.

# DILYNIANT A CHWBLHAU'CH GRADD

Yn ystod eich gradd, mae'n ofynnol i chi gysylltu â'ch goruchwyliwr bob mis i gofnodi'ch presenoldeb a'ch cyfranogiad yn eich ymchwil. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi fynychu cyfarfodydd goruchwylio a dilyniant ffurfiol rheolaidd gyda'ch goruchwyliwr yn ystod y flwyddyn ddilyniant a'r cam cwblhau. Bydd yn ofynnol i'ch goruchwyliwr a chi gofnodi canlyniadau eich dilyniant, gan gynnwys cofnod o bob un o'r cyfarfodydd hyn a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Rhaid cwblhau pob adran a chadarnhau pob cyfarfod cyn y gellir cwblhau'r broses fonitro.

Mae'r camau blynyddol o ddilyniant a chwblhau, y mae'n rhaid cofnodi pob un ohonynt ar yr RMS, fel a ganlyn:




### Cadarnhau Ymgeisyddiaeth

Mae'n rhaid i bob myfyriwr ymchwil (amser llawn a rhan-amser) gwblhau gweithdrefnau **Cadarnhau Ymgeisyddiaeth** o fewn tri mis i gofrestru. Yn ystod y tri mis cyntaf hyn, disgwylir i chi lunio cynllun ymchwil a chrynodeb o'ch prosiect ac ystyried, lle y bo'n briodol, holl oblygiadau moesegol eich ymchwil. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd caiff eich anghenion hyfforddiant eu hasesu. I gadarnhau'ch ymgeisyddiaeth, bydd angen i chi gwrdd â'ch dau oruchwyliwr dri mis ar ôl dechrau astudio, fan hwyraf, er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- Mae'r manylion am yr ymgeisyddiaeth yn y gronfa ddata ganolog yn gywir: yn enwedig y dyddiad dechrau, y cyfnod ymgeisyddiaeth byrraf, y dyddiad cyflwyno hwyraf, enwau'r goruchwylwyr, y dull astudio, a phwnc yr astudiaeth;
- Mae'r myfyriwr wedi matriciwleiddio i gael ei dderbyn i'r Brifysgol;
- Cyflwynwyd cais (lle y bo'n briodol) i gyflwyno'r traethawd ymchwil yn Gymraeg i'r Gyfadran, ac wedyn i'r Gwasanaethau Academaidd;
- Cyflwynwyd cais (lle y bo'n briodol) i gyflwyno'r traethawd ymchwil mewn iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg (am resymau academaidd neu le mae

cyflwyno'r traethawd ymchwil mewn iaith arall yn ofyniad y rhaglen benodol) i'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd;

- Cytunwyd ar gynllun ymchwil rhwng y myfyriwr a'r goruchwylwyr, ac mae crynodeb byr o'r prosiect (tua 300 o eiriau) wedi'i lanlwytho i'r system monitro cynnydd;
- Mae agweddau moesegol yr ymchwil wedi cael eu hystyried ac mae ffurflen adolygiad moesegol 'llai beichus' wedi cael ei chwblhau lle y bo'n berthnasol;
- I'r graddau y mae modd asesu hyn yn rhesymol ar yr adeg hon, mae'r cyfleusterau a'r adnoddau angenrheidiol i gwblhau'r prosiect ar gael, neu byddant ar gael pan fydd eu hangen;
- Cwblhawyd Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi;
- Mae'r myfyriwr wedi derbyn y ddogfennaeth berthnasol, megis Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yr Ysgol/Gyfadran;
- Nodwyd yr hyfforddiant diogelwch angenrheidiol, lle y bo'n berthnasol, a naill ai mae'r myfyriwr wedi'i gwblhau neu cytunwyd ar amserlen briodol i'w gwblhau;
- Mae'r myfyriwr wedi cwblhau (neu bydd yn cwblhau) unrhyw gyrsiau ymsefydlu/hyfforddiant gorfodol y Brifysgol neu'r Gyfadran, gan gynnwys Uniondeb a Moeseg Ymchwil;
- Mae'r myfyriwr yn ymrwymo i'w astudiaethau - cofnodir absenoldeb sy'n hwy na phythefnos.

Mae'n rhaid i'r myfyriwr a'r goruchwyliwr/goruchwylwyr gwblhau'r broses Cadarnhau Ymgeisyddiaeth a'i chofnodi ar y system ar-lein, gan roi un o dri chanlyniad posib:

- Ymgeisyddiaeth wedi'i chadarnhau
- Gohirio am dri mis
- Tynnu yn ôl yn ofynnol

Mae Cadarnhad o Ymgeisyddiaeth yn cynrychioli'r asesiad ffurfiol cyntaf o'ch cynnydd. Am wybodaeth fanylach, gweler y Rheoliadau Academaidd, Canllaw i Ymgeisyddiaeth Gradd Ymchwil.

**Cam Dilyniant/Cyfnod Ymchwil dan Oruchwyliaeth**

Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, byddwch yn ymgymryd â phrif ran eich ymchwil ac yn llunio'r traethawd ymchwil ysgrifenedig ar ôl cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth a chwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Yn ystod y cyfnod hwn y cewch eich goruchwylio fwyaf.

Bydd cwblhau'r cyfnod hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar fodloni'r meini prawf dilyniant. Ail asesiad ffurfiol eich dilyniant (ar ôl i'ch ymgeisyddiaeth gael ei

chadarnhau) fydd adroddiad dilyniant, a allai gynnwys un o'r penderfyniadau canlynol:

- Cynnydd boddhaol
- Achos Pryder
- Ffactorau y tu hwn i reolaeth y myfyriwr wedi amharu ar gynnydd
- Trosglwyddo i PhD/Doethuriaeth
- Trosglwyddo i MPhil/Meistr mewn Athroniaeth
- Trosglwyddo i Feistr mewn Ymchwil (MRes)
- Trosglwyddo i raglen Meistr trwy Ymchwil (MA/MSc/LLM drwy Ymchwil)
- Gorfod tynnu'n ôl yn ofynnol
- Myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i wirfodd
- Wedi cyflwyno/ailgyflwyno

Am wybodaeth fanylach, gweler y Rheoliadau Academaidd: Canllaw i Fonitro Cynnydd.

**Y Cyfnod Prawf**

Fel rhan o'r cyfnod dilyniant, tybir bod yr holl fyfyrwyr MPhil a PhD yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau ar gyfnod prawf yn ystod blwyddyn gyntaf eu hymgeisyddiaeth (y ddwy flynedd gyntaf yn achos myfyrwyr rhan-amser). Tua diwedd y cyfnod hwnnw, mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â gweithdrefnau diwedd cyfnod prawf fel rhan o fonitro eu cynnydd. Dylai myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglen MA drwy Ymchwil neu MPhil ac sydd am uwchraddio i MPhil neu PhD, roi gwybod i Gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau er mwyn ymgymryd â gweithdrefnau tebyg.

Byddwch yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno'r darnau canlynol o waith i Ymchwil Ôl-raddedig:

**PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk**

- cofnod o'r cyrsiau sgiliau a hyfforddiant a gwblhawyd
- drafft o un bennod (y bennod agoriadol, adolygiad llenyddiaeth neu ddarn o waith cyfatebol)
- tabl cynnwys arfaethedig y traethawd ymchwil (tuag un dudalen)
- crynodeb o'r traethawd ymchwil (hyd at 1,000 o eiriau)
- llyfryddiaeth o'r eitemau a ddarllenwyd hyd yma
- cofnod o gyfarfodydd gyda goruchwylwyr (gallai hyn fod ar yr RMS)

I fyfyrwyr amser llawn a ddechreuodd eu hymchwil ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ar 1 Hydref, rhaid cyflwyno'r darnau o waith hyn erbyn mis Mehefin mewn pryd ar gyfer cyfarfod panel gyda'r myfyriwr erbyn diwedd y mis hwnnw. I

fyfyrwyr amser llawn a ddechreuodd ar adegau eraill o’r flwyddyn, rhaid cyflwyno'r gwaith tua naw mis ar ôl cofrestru. Gall myfyrwyr rhan-amser gymryd dwywaith yr amser. Bydd Swyddfa'r Graddedigion yn eich hysbysu am y dyddiad cyflwyno.

Defnyddir y meini prawf cyffredinol canlynol ar gyfer pob myfyriwr wrth asesu a yw wedi cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus ai peidio:

- Mae'r myfyriwr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'i bwnc ac o ddulliau a thechnegau cysylltiedig;
- Mae'r myfyriwr wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth (neu ymarfer cyfwerth);
- Mae'r myfyriwr wedi dangos potensial i wneud cyfraniad gwreiddiol yn ei faes astudio;
- Mae'r myfyriwr yn gallu cyflwyno a chyfleu ei waith ymchwil ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- Mae'r myfyriwr wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddi neu'r cyrsiau a nodwyd ar ddechrau ei astudiaethau'n llwyddiannus;
- Gall y myfyriwr ddangos hyfedredd, ysgrifenedig a llafar, yn yr iaith gyflwyno.

Cynhelir cyfarfod cyfnod prawf gyda Chadeirydd, i benderfynu ar eich addasrwydd i barhau/uwchraddio ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn seiliedig ar ansawdd y gwaith a gyflwynwyd gennych hefyd. Bydd y panel yn cynnwys y goruchwyliwr, yr ail oruchwyliwr ac uwch-aelod o staff academaidd y Gyfadran. Gellir gwahodd aelodau eraill o'r staff academaidd yn ôl argymhelliad y goruchwyliwr. Diben cyfarfod y panel gyda’r myfyriwr yw trafod y bennod, crynodeb y traethawd ymchwil a’r llyfryddiaeth er mwyn nodi cryfderau a gwendidau a gwneud argymhellion mewn adroddiad ysgrifenedig a gaiff ei lanlwytho i'r system monitro cynnydd ar-lein. Cynghorir y myfyriwr i fynd i’r afael â’r materion a godwyd yn yr adroddiad a’r cyngor sydd ynddo.

Bydd un o’r canlyniadau canlynol yn cael ei gofnodi gan y goruchwyliwr cyntaf gan ddefnyddio'r System Rheoli Ymchwil (RMS):

- Pasio Cyfnod Prawf [gwnaed cynnydd priodol ac mae'r myfyriwr ar y trywydd cywir i lunio PhD]
- Pasio Cyfnod Prawf a throsglwyddo i MPhil/PhD
- Diwygio ac ailgyflwyno dogfennau'r cyfnod prawf o fewn 3 mis
- Diwygio ac ailgyflwyno dogfennau'r cyfnod prawf o fewn 6 mis

Caiff argymhelliad yr adroddiad ei gadarnhau gan Fwrdd Dyfarnu'r Gyfadran. Ar ôl i chi basio'r cyfnod prawf/gael eich uwchraddio, caiff eich cynnydd ei fonitro bob chwe mis.

## Cam Cwblhau

Erbyn yr adeg hon, mae'r ymchwil wedi'i chwblhau ac mae drafft wedi'i lunio, os nad y traethawd ymchwil ysgrifenedig llawn. Felly, nid yw'n debygol y bydd angen goruchwyliaeth lawn. Caiff eich cynnydd ei asesu'n ffurfiol gan eich Cyfadran a

gwneir argymhelliad ynghylch a fyddwch yn barod i gyflwyno'ch traethawd ymchwil o fewn chwe mis ai peidio.

Sylwer y bydd yn rhaid i chi nodi eich bwriad i gyflwyno'ch traethawd hir, gan ddefnyddio ffurflen 'Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno' (sydd ar gael Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig y Dyniaethau a'r Celfyddydau: **PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk**) o leiaf dri mis cyn cyflwyno. Am fanylion pellach am y broses cyflwyno ac arholi, gweler y Rheoliadau Academaidd, drwy'r dolenni canlynol:

Canllaw i Gyflwyno Traethawd Hir

Canllawiau ar Arholi Myfyrwyr Ymchwil

# DATBLYGU SGILIAU I FYFYRWYR YMCHWIL

**Datblygiad Sgiliau sy'n cael ei gynnig gan y Brifysgol i Fyfyrwyr Ymchwil**

Mae Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig y Brifysgol yn cynnal rhaglen reolaidd o gyrsiau hyfforddi i fyfyrwyr ymchwil. Gellir gweld manylion (dyddiadau, amseroedd, lleoliadau a manylion cofrestru) drwy'r ddolen ganlynol: http://www.swansea.ac.uk/research/researcher-development/postgraduateresearchstudents/

**Datblygiad Sgiliau i Fyfyrwyr Ymchwil a gynigir gan Gyfadran**

Mae'r Gyfadran yn cynnig hyfforddiant ymchwil i fyfyrwyr ar ffurfiau amrywiol. Caiff y rhain eu hysbysebu drwy e-bost ac ar wefan Hyfforddiant Ymchwil Ôl-raddedig y Gyfadran.

# Lwfans Ymchwil, Ceisiadau am Gyllid i Gefnogi Ymchwil ac Ad-dalu Treuliau

**Lwfans Cymorth Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau**

Er mwyn cefnogi'r amrywiaeth eang o weithgareddau ymchwil a wneir gan ein myfyrwyr ôl-raddedig, mae'r Ganolfan Ymchwil Ôl-raddedig yn darparu'r lwfansau canlynol ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau a theithiau ymchwil, deunyddiau, llyfrau a meddalwedd etc na fyddent ar gael fel arall yn ystod y tymor cofrestru (nid fesul blwyddyn):

**CAIFF RHAGOR O WYBODAETH EI DARPARU MAES O LAW.**

**Gall y prosesau uchod newid gan ddibynnu ar gyfyngiadau ar y gwasanaeth oherwydd COVID-19.** https://www.swansea.ac.uk/about-us/coronavirus/

# DIOGELU DATA

Mae’r Brifysgol yn cydymffurfio ag egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae holl ddata personol myfyrwyr yn cael ei brosesu yn unol â gofynion cofrestriad y Brifysgol gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rhif cofrestru’r Brifysgol gyda’r Comisiynydd Gwybodaeth yw Z6102454. Cofiwch, **cyfrifoldeb y myfyriwr** yw sicrhau bod yr holl ddata personol mae angen i chi ei ddarparu i'r Brifysgol yn gywir ac yn gyfredol.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Brifysgol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan HESA.

Am ragor o wybodaeth am sut y caiff eich data personol ei brosesu a gwybodaeth am sut y gallwch chi ddefnyddio’ch hawliau o ran eich data personol, gweler yr Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr a’r tudalennau gwe Diogelu Data.

# CYSYLLTIADAU CYMORTH MYFYRWYR

Os oes angen cymorth arnoch chi yn ystod eich astudiaethau, dylai eich Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau a MyUniHub allu cynnig cymorth neu eich rhoi ar y trywydd cywir.

**Swyddfa Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau** (ar gyfer ymholiadau academaidd sy'n berthnasol i'ch gradd ymchwil).

E-bost: **PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk**

Twitter : @COAHPGR
gwefan Canolfan Ymchwil Ôl-raddedig y Celfyddydau a'r Dyniaethau

Sylwer: cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost **PGR-cultureandcom@abertawe.ac.uk / PGR-socialsciences@abertawe.ac.uk** gan fod y staff gweinyddol yn gweithio o bell o hyd; byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddant ar y campws eto yn:
Lleoliad: Keir Hardie 142
Oriau Agor: Dydd Llun i ddydd Gwener, 09.00-17.00
Rhif ffôn: 01792 295926

## MyUniHub

Am bob ymholiad arall:

Campws Parc Singleton: Abaty Singleton, y Bloc Stablau
Campws y Bae: Canolfan Wybodaeth y Tŵr
Oriau agor:

| | |
|---|---|
| Llun-Gwener | 08.30-17.30 – Yn ystod y tymor |
| | 09.00-17.00 – Yn ystod y gwyliau |

Rhif ffôn: 01792 606000
E-bost: myunihub@abertawe.ac.uk
Gwefan: https://myuni.swan.ac.uk/

Mae MyUniHub yn dod â nifer o wasanaethau proffesiynol rheng flaen y Brifysgol at ei gilydd, gan ddarparu desg wybodaeth sengl, neu Hyb, sy'n diwallu anghenion gwybodaeth myfyrwyr ar gampws Singleton a Champws y Bae. Mae'r Hybiau hyn yn ceisio cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad dibynadwy a chyson. Dyma'r man cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw broblem a gewch yn ystod eich gyrfa academaidd. Os nad ydych yn siŵr pwy fydd yn gallu helpu, gofynnwch i'r Hyb!

Gall MyUniHub gynorthwyo gydag amrywiaeth o ymholiadau personol ac academaidd yn y meysydd canlynol:

- Cofrestru
- Talu ffioedd dysgu a llety
- Eithrio o Dreth y Cyngor
- Cadarnhau Statws Myfyriwr
- Cofnodion Myfyrwyr
- Polisïau a Gweithdrefnau Academaidd, gan gynnwys Camymddygiad Academaidd a Monitro Presenoldeb
- Apeliadau, Cwynion a Disgyblu
- Atodiadau Diploma HEAR
- Gwasanaethau Argraffu a Rhwymo
- Cyfieithu Cymraeg
- Gohirio Astudiaethau neu Dynnu'n ôl o'r Brifysgol
- Trawsgrifiadau
- Materion sy’n ymwneud â chydymffurfiaeth i fyfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys casglu cerdyn BRP, estyniadau i fisâu a chofrestru gyda’r Heddlu
- Estyniadau Fisa
- Cyllid Myfyrwyr

## Canolfan Cyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr

Campws Singleton: Llawr Gwaelod, Tŷ Fulton (y tu ôl i Costcutter)
Campws y Bae: Llawr Cyntaf, Adeilad Undeb y Myfyrwyr
Rhif ffôn: 01792 295821
E-bost: advice@swansea-union.co.uk
Gwefan: www.swansea-union.co.uk/support/advicesupportcentre

Mae Canolfan Gwasanaeth Cyngor Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyngor annibynnol a chyfrinachol am ddim ac yn cynrychioli holl fyfyrwyr Prifysgol Abertawe ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys pryderon ariannol, materion academaidd, tai, materion cyfreithiol a phroblemau personol.

# GWEFANNAU DEFNYDDIOL I FYFYRWYR YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

**Bookfinder**

Gwefan: www.bookfinder.com
Gwefan ddefnyddiol ar gyfer dod o hyd i lyfrau newydd ac ail-law, gan gynnwys llyfrau prin ac allan o brint.

**Y Llyfrgell Brydeinig**

Gwefan: www.bl.uk

Mae gan Brifysgol Abertawe wasanaeth benthyciadau rhwng llyfrgelloedd sy'n caniatáu archebu llyfrau gan lyfrgelloedd eraill os nad oes copïau ar gael yn llyfrgelloedd y Brifysgol; chwiliwch Gatalog y Llyfrgell Brydeinig a chwblhau cais am fenthyciad rhwng llyfrgelloedd [dolen http://libguides.swansea.ac.uk/Document-Supply] a gallwch drefnu i'r llyfr neu'r erthygl gael ei hanfon i Abertawe.

**Dathlu Ymchwilwyr Prifysgol Abertawe (Sianel YouTube)**

Gwefan: www.youtube.com/channel/UCER2oBPPzgmrJA6ALukrXwQ

**Y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd**

Gwefan: https://erc.europa.eu/

**Gradintel**

Gwefan: http://gradintel.com

Mae Gradintel yn helpu i ddod o hyd i gyflogaeth ar lefel raddedig.

**Advance HE**

Gwefan: www.heacademy.ac.uk/about-hea
Yn canolbwyntio ar ansawdd addysgu mewn Addysg Uwch.

**Blogiau'r Llyfrgell**

Y Celfyddydau a'r Dyniaethau: http://arts-team.swan.ac.uk

**Canllawiau'r Llyfrgell**

Gwefan: http://libguides.swansea.ac.uk/

Canllawiau ar gyfer adrannau penodol a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i lyfrau ac erthyglau. Maent yn cynnwys dolenni i gyfryngau cymdeithasol a ffurflen adborth y gallwch ei defnyddio hefyd i ofyn cwestiynau i'r timau llyfrgell unigol ar gyfer pob Ysgol academaidd.

**Newyddion y Llyfrgell**

Cyfryngau Cymdeithasol: Facebook, Twitter,YouTube http: www.youtube.com/channel/UCziftYKOxtZCfGyDqNXXxcQ

**Blog Newyddion Ymchwil y Llyfrgell**

Gwefan: http://researchnews.wordpress.com

**Blog Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT)**

Gwefan: http://salt.swan.ac.uk/blog

**The Book Pond**

Gwefan: www.thebookpond.com

Gwefan ddefnyddiol ar gyfer prynu a gwerthu llyfrau academaidd.

**Cynghorau Ymchwil y DU**

Yn ogystal ag UK Research and Innovation (https://www.ukri.org/), ceir Cynghorau unigol:

Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC): http://www.ahrc.ac.uk/

Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC): http://www.esrc.ac.uk/

Yr Academi Brydeinig: http://www.britac.ac.uk/
Ymddiriedolaeth Leverhulme: https://www.leverhulme.ac.uk/
Ymddiriedolaeth Wellcome: https://wellcome.ac.uk/
Y Coleg Cymraeg: http://www.colegcymraeg.ac.uk/

**Siop Lyfrau'r Brifysgol Ar-lein**

Gwefan: Prifysgol Abertawe - (jsgroup.co.uk)

**Gwefan Ymchwil y Brifysgol**

Gwefan: www.swansea.ac.uk/cy/ymchwil

**Vitae**

Gwefan: www.vitae.ac.uk

Yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymchwilwyr; mae'n cynnig gwybodaeth helaeth i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig waeth pa gam maent wedi'i gyrraedd yn eu gradd; gan gynnwys datblygiad gyrfa, llwyddiant academaidd, cyhoeddi academaidd a llawer mwy.

# Ymwadiad

Mae Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud rhai newidiadau, er enghraifft o ran rhaglenni, modiwlau, lleoliad astudio, cyfleoedd lleoliad gwaith, cyfleusterau neu ffioedd, oherwydd rhesymau dilys staffio, ariannol, rheoleiddiol ac academaidd dilys, neu o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol. Bydd y Gyfadran bob amser yn ymdrechu i gadw newidiadau i leiafswm ac i hysbysu myfyrwyr yn briodol. Caiff newidiadau yn yr wybodaeth yn y Llawlyfr hwn eu cyhoeddi bob chwarter yng Nghanllaw Academaidd Prifysgol Abertawe ar-lein.

Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Gyfadran yn uniongyrchol os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych ymholiadau ynghylch newidiadau y cewch wybod amdanynt.

**Os oes angen  gwybodaeth arall arnoch, defnyddiwch y Cysylltiadau a restrir ar ddiwedd y llawlyfr hwn i gysylltu â'r gwasanaeth dan sylw'n uniongyrchol.**